Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Llanganna
# Llanganna
# Ger Pen-y-bont ar Ogwr
# CF35 5DR

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Llanganna

Mae Ysgol Gynradd Sirol Llanganna yn awdurdod lleol Bro Morgannwg. Mae 126 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 22 o ddisgyblion sy'n mynychu'n rhan-amser, yn y dosbarth meithrin. Mae'r ysgol yn trefnu disgyblion yn bedwar dosbarth oedran cymysg a'r dosbarth meithrin.

Mae llai na 2% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 6% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol neu'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Ionawr 2016. Cynhaliwyd yr arolygiad blaenorol o'r ysgol ym mis Mawrth 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Llanganna yn gymuned ddysgu gynhwysol.  Mae arweinwyr a staff yn dangos lefelau uchel o ofal a pharch at ddisgyblion.  Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni’n dda.  Maent yn hynod huawdl ac yn siarad yn aeddfed am ystod eang o destunau.  Mae ymddygiad disgyblion yn eithriadol o dda.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.  Maent yn adnabod yn dda pan fydd angen cymorth neu gefnogaeth ychwanegol ar ddisgyblion.  Mae llawer o athrawon yn defnyddio medrau holi effeithiol i brofi dealltwriaeth disgyblion ac yn eu hannog i ddatblygu eu syniadau’n llwyddiannus.  Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau athrawon o ddisgyblion, a’r her a ddarperir gan weithgareddau, yn ddigon uchel yn gyson.  Mae’r ysgol yn datblygu ystod fwy amrywiol o brofiadau dysgu gwerthfawr i ennyn diddordeb disgyblion.  Mae’r datblygiadau hyn yn dechrau cael effaith briodol ar frwdfrydedd disgyblion.

Mae’r pennaeth yn angerddol ynglŷn â’i rôl ac yn ystyried yn dda sut i ddatblygu rôl arwain staff addysgu eraill.  Mae’r corff llywodraethol yn hynod ymroddgar i gefnogi’r ysgol hefyd.  Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn ymgysylltu’n effeithiol â lleiafrif o randdeiliaid.  Mae prosesau’r ysgol ar gyfer nodi meysydd i’w gwella yn gynhwysfawr, ond nid ydynt bob amser yn ddigon cywir.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn herio ac yn ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion yn llwyddiannus

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd mwy cyson a buddiol i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella ymgysylltu â'r rhanddeiliaid a nodwyd yn yr adroddiad

A4 Gwella trylwyredd prosesau hunanwerthuso i sicrhau bod yr ysgol yn nodi'r meysydd pwysicaf i'w gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol â medrau sydd gyfwerth â'r rheiny a ddisgwylir am eu hoedran, neu'n uwch. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni'n dda. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gwneud cynnydd mor llwyddiannus ag y gallent, yn enwedig y disgyblion mwy abl.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn siarad yn hyderus ag oedolion ac â'i gilydd. Gall llawer ohonynt esbonio eu meddyliau a'u syniadau'n effeithiol, er enghraifft wrth ystyried priodoleddau siapiau dau ddimensiwn. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu'n dda iawn ac yn defnyddio geirfa eang ac amrywiol. Er enghraifft, wrth drafod ychwanegion bwyd, mae disgyblion yn cymharu'r angen i sicrhau nad yw bwyd yn cael ei ddifetha yn erbyn y dymuniad am lai o gemegolion yn eu bwyd. Mae llawer ohonynt yn gwrando'n ofalus ar ddisgyblion eraill, ac yn defnyddio hyn i feithrin eu syniadau eu hunain yn dda.

Ar ddiwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus. Mae ganddynt ddealltwriaeth fuddiol o seiniau llythrennau a defnyddiant hyn i ddatrys geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw i gof ac yn trafod cynnwys eu llyfrau'n dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl ac yn gywir. Maent yn adnabod gwahanol arddulliau ysgrifennu a'r gwahanol safbwyntiau y mae hyn yn eu rhoi i'r darllenydd, er enghraifft y ffordd y mae ysgrifennu yn y person cyntaf yn eich helpu i ddeall yr adroddwr. Mae mwyafrif y disgyblion yn deall technegau a ddefnyddir gan awduron i ennyn diddordeb y darllenydd, er enghraifft defnyddio cwestiynau rhethregol. Fodd bynnag, nid yw ychydig ohonynt bob amser yn adnabod nac yn cywiro eu hunain pan fyddant yn gwneud camgymeriadau wrth ddarllen brawddegau.

Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrywiaeth o *genres*, er enghraifft mewn llythyrau at Siôn Corn, erthyglau papur newydd a chwedlau ag iddynt neges foesol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio ffurfiau atalnodi eraill yn llwyddiannus, fel dyfynodau ac ebychnodau. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ansoddeiriau'n effeithiol i fywiogi eu hysgrifennu, er enghraifft wrth ddisgrifio brân fel 'fuzzy and feathery'. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu adroddiadau cynhwysfawr ar destunau, fel eu profiadau dychmygus fel faciwî. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu geirfa helaeth yn dda i ychwanegu diddordeb at eu hysgrifennu. Er enghraifft, maent yn disgrifio'r canlynol wrth sefyll ar blatfform trên: 'mother grabbed my hand forcefully like a snake suffocating its prey'. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn defnyddio'r medrau hyn i safon ddigon uchel wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn effeithiol. Maent yn llwyddo i adnabod patrymau mathemategol, a'u rhoi yn eu trefn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu dealltwriaeth fathemategol yn ddefnyddiol mewn sefyllfaoedd ymarferol, er enghraifft wrth ddarllen thermomedrau a mesur y dyfnder at hadau planhigion yn y poly-dwnnel. Erbyn

Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn deall eu tablau lluosi ac yn defnyddio'r rhain i ddatrys problemau'n gywir, er enghraifft wrth gyfrifo cyfaint ciwb. Mae llawer ohonynt yn deall cysyniadau fel rhifau cysefin a rhifau sgwâr yn dda. Maent yn nodi strategaethau defnyddiol a'r camau sydd eu hangen i gwblhau tasgau, er enghraifft nodi p'un a yw ongl yn ongl aflem neu'n ongl lem cyn mesur, er mwyn gallu amcangyfrif eu hateb. Mae ychydig o ddisgyblion yn cael trafferth gwneud cyfrifiadau pen cyflym, a ddylai fod o fewn cyrraedd iddynt. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd i lefel ddigon uchel wrth weithio ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn dda ac yn defnyddio'r rhain mewn pynciau ar draws y cwricwlwm yn hyderus. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio gliniaduron a chyfrifiaduron llechen yn effeithlon wrth aildrefnu brawddegau neu ateb cwestiynau am dablau lluosi. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio amrywiaeth o feddalwedd i greu posteri dychmygus ynghylch gwrthfwlio. Mae llawer ohonynt yn defnyddio taenlenni mewn ffordd syml, er enghraifft i gyflwyno gwybodaeth am hoff fwydydd disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio apiau recordio a golygu fideo syml yn dda i recordio eu hunain, er enghraifft wrth ddarllen newyddion am ddigwyddiadau o bwys yn yr Ail Ryfel Byd.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu medrau Cymraeg. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn glir i rannu gwybodaeth bersonol, er enghraifft ble maent yn byw a phwy sydd yn eu teulu. Mae llawer ohonynt yn meddu ar eirfa werth chweil a syml y maent yn ei defnyddio'n briodol. Mae mwyafrif ohonynt yn darllen testunau Cymraeg syml yn hyderus, ac yn cyfleu a deall yr hyn y maent yn ei ddarllen yn briodol. Mae disgyblion hŷn yn dechrau ysgrifennu brawddegau sylfaenol yn rhwydd gan ddefnyddio strwythurau brawddeg priodol, er enghraifft wrth ysgrifennu am rywun enwog, fel Michelle Obama.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd gofalgar a meithringar yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod at bwy y gallant droi pan fydd angen cymorth arnynt, ac maent yn hyderus y bydd oedolion yn ymateb yn effeithiol i unrhyw broblemau'n ymwneud â chyfeillgarwch neu ymddygiad. Mae aelodau o'r grŵp ffrindiau iard chwarae yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif o ran sicrhau bod pob disgybl yn hapus yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais, ac mae ganddynt foesau da, ac yn dangos parch at oedolion ac at ei gilydd. Bron ym mhob achos, maent yn gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eu ffrindiau a'u hathrawon yn ei ddweud. Dangosant ystyriaeth a pharch at anghenion pobl eraill.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae ganddynt ddiddordeb mewn dysgu ac maent yn canolbwyntio am gyfnodau hir wrth gwblhau tasgau. Maent yn gweithio'n dda yn unigol a gyda'u ffrindiau dosbarth. Dangosant wydnwch a dyfalbarhad cryf wrth wynebu heriau, er enghraifft dysgu oddi wrth gamgymeriadau wrth adeiladu pont wedi'i gwneud o bapur newydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn rhannu eu syniadau ar yr hyn yr hoffent ei ddysgu yn

llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn rhoi sylwadau'n aeddfed am y 'wal ryfeddodau' ('wonder-wall') yn yr ystafell ddosbarth i rannu eu syniadau â'r dosbarth. Maent yn dechrau gwneud mwy o benderfyniadau annibynnol am y gwahanol ffyrdd y gallant gwblhau tasgau'n llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarnhaol ynglŷn â'r cyfleoedd a gânt i ddatblygu medrau arwain. Maent yn ymgymryd â chyfrifoldebau yn gydwybodol o fewn amrywiaeth o grwpiau. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn gofyn i awdurdodau lleol ariannu offer iard chwarae. Mae'r 'Tylluanod Eco' wedi llwyddo i leihau'r defnydd o ddeunyddiau plastig yn yr ysgol trwy sicrhau bod disgyblion yn yfed llaeth o gwpanau y gellir eu hailddefnyddio yn hytrach na defnyddio poteli llaeth plastig. Fodd bynnag, nid yw'r rolau hyn yn dylanwadu'n ddigon cryf ar benderfyniadau yn yr ysgol eto.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall bod angen byw bywydau iach, ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at hyn. Maent yn deall yn dda bod ffrwythau a llysiau yn rhan hanfodol o ddiet iach. Maent yn siarad yn hyderus am yr angen i wneud ymarfer corff yn rheolaidd, a buddion y gweithgaredd milltir y dydd. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn y clybiau ysgol yn frwdfrydig, er enghraifft y clybiau pêl-droed fflag a thennis bwrdd. Mae hyn o fudd corfforol iddynt, ac yn cyfrannu at eu lles cyffredinol yn ogystal. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mae athrawon a staff cymorth yn meithrin perthnasoedd gweithio cryf gyda disgyblion. Maent yn creu awyrgylch cadarnhaol yn yr ysgol, ac yn parchu disgyblion. Pan fo'r addysgu'n effeithiol, mae staff yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau a strategaethau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth meithrin yn datblygu medrau corfforol a chyfathrebu defnyddiol tra'n gwneud cawl llysiau ffres. Mae llawer o athrawon yn defnyddio medrau holi effeithiol i brofi dealltwriaeth disgyblion ac yn eu hannog i ddatblygu eu syniadau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau athrawon o ddisgyblion, a'r her a ddarperir gan weithgareddau, yn ddigon uchel yn gyson.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol mewn gwersi sy'n helpu disgyblion pan fyddant yn ansicr ynglŷn â beth i'w wneud. Maent yn nodi dysgu effeithiol, ac yn canmol disgyblion yn dda. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o achosion, nid yw'r adborth ysgrifenedig yn ddigon effeithiol i helpu disgyblion i nodi'r hyn y mae angen iddynt ei wella. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion werthuso eu gwaith eu hunain, neu waith eu ffrindiau dosbarth. Fodd bynnag, mae'r arferion buddiol hyn yn rhy anghyson.

At ei gilydd, mae dull strategol yr ysgol o drefnu'r cwricwlwm yn rhoi cymorth da i athrawon i gynllunio dysgu. Mae cynllunio tymor hir yn ddefnyddiol ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn datblygu ystod fwy amrywiol o brofiadau dysgu gwerthfawr i ennyn diddordeb disgyblion. Er enghraifft, mae datblygu amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau dysgu yn ardal y rhandir yn cyfareddu disgyblion, ac mae'n dechrau cyfrannu'n dda at ddatblygu eu medrau a'u lles. Bellach, caiff disgyblion gyfleoedd i awgrymu syniadau ar gyfer testunau dosbarth, a gwnânt fwy o

benderfyniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Mae'r datblygiadau hyn yn dechrau cael effaith briodol ar frwdfrydedd disgyblion.

Mewn mwyafrif o ddosbarthiadau yn y cyfnod sylfaen, mae'r ysgol wedi datblygu ethos ac egwyddorion y cam dysgu hwn yn llwyddiannus. Caiff disgyblion gyfleoedd buddiol i ddatblygu annibyniaeth a dylanwadu ar eu dysgu eu hunain. Mae gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored yn ddifyr ac yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau, fel eu dealltwriaeth o faint, siâp a phatrwm. Fodd bynnag, nid yw disgyblion hŷn yn y cyfnod sylfaen yn cael y profiadau dysgu gwerth chweil hyn yn gyson.

Mae ffocws gwerth chweil ar draws yr ysgol ar ddatblygu medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio ystod ddefnyddiol o weithgareddau i alluogi disgyblion i ddefnyddio'r medrau hyn. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn defnyddio animeiddiadau *stop-go* i wella eu medrau cyfathrebu. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn llai llwyddiannus o ran darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn rhoi ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion wella'r medrau hyn, fel darlunio graffiau yn eu gwersi gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd hyn yn rhy anghyson. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn datblygu'r medrau hyn mor llwyddiannus ag y gallent.

Mae sesiynau Cymraeg rheolaidd yn helpu disgyblion i ddatblygu eu rhugldер mewn defnyddio patrymau brawddeg cyffredin, ac yn eu helpu i ddeall pwysigrwydd dysgu Cymraeg. Mae athrawon a'r 'Criw Cymraeg' yn sicrhau bod cyfleoedd priodol i ddisgyblion ymarfer eu Cymraeg, er enghraifft trwy frawddeg yr wythnos. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn briodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o systemau a chyfarfodydd cynnydd i fonitro'r cynnydd a wna disgyblion, a defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i nodi'r rheiny sydd angen cymorth ychwanegol. Maent yn datblygu cynlluniau unigol defnyddiol ar gyfer disgyblion penodol sy'n nodi eu hanghenion penodol, a chamau y gallant eu cymryd i gynorthwyo'r disgyblion hyn. Mae hyn yn helpu staff i ddarparu ar gyfer y disgyblion hyn yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol, fel gwasanaethau lleferydd ac iaith a gwasanaethau meddygol, i sicrhau darpariaeth addas ar gyfer disgyblion penodol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau. Mae'r ysgol yn nodi disgyblion sydd angen cymorth emosiynol yn effeithiol, ac yn darparu ymyriadau buddiol er mwyn iddynt wneud cynnydd cadarnhaol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau trwy amrywiaeth o bwyllgorau disgyblion. Maent yn trafod a datblygu syniadau yn briodol, fel datblygu gemau iard chwarae yn Gymraeg. Ceir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol a chydweithredol, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn wythnos 'Medrau Bywyd'. Maent yn dysgu byw a gweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau, gan adeiladu lleoedd cuddio ac ysgrifennu caneuon fel rhan o'u cyfrifoldebau 'llwyth'. Mae disgyblion hŷn yn cynorthwyo disgyblion iau yn effeithiol i ddatblygu eu medrau yn y tasgau diddorol hyn.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft yn ystod sesiynau addoli ar y cyd a gwasanaethau. Maent yn darparu storïau ar gyfer disgyblion i fyfyrio ar eu hystyr cymdeithasol ac ysbrydol. Mae 'llysgenhadon hawliau' yn hyrwyddo hawliau plant yn effeithiol, gan helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth foesol gref. Maent yn dathlu'r gwerthoedd hyn yn llwyddiannus, ac yn eu hamlygu ar draws yr ysgol, mewn siarteri ystafell ddosbarth a 'phosteri addewidion'. Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o iechyd a lles corfforol ac emosiynol yn ofalus. Er enghraifft, yn ystod yr wythnos les, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithdai cerddoriaeth a dawns. Maent yn mwynhau taith synhwyraidd trwy dir yr ysgol i'w helpu i ddeall gwerth natur i'w lles. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae staff yn defnyddio tir yr ysgol yn effeithiol i ysgogi dysgu disgyblion. Er enghraifft, maent yn tyfu amrywiaeth o ffrwythau a llysiau, ac yn annog disgyblion i ofalu am y planhigion hyn er mwyn eu cynaeafu'n llwyddiannus. Maent yn rheoli amrywiaeth o deithiau addas i gefnogi dysgu disgyblion, er enghraifft i amgueddfeydd lleol a'r ganolfan RNLI ym Mhorthcawl. Mae hyn yn gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am wahanol destunau yn fuddiol.

Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth berthnasol a defnyddiol i rieni am gynnydd eu plant. Mae disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at eu hadroddiad blynyddol, ac yn rhannu eu gwaith gorau yn greadigol trwy ddefnyddio dolen i'r rhyngrwyd sy'n galluogi pobl eraill i weld y gwaith hwn yn rhithwir. Fodd bynnag, mae lleiafrif o rieni o'r farn nad yw'r ysgol yn gofyn am eu hadborth nac yn gwrando ar eu safbwyntiau'n ddigon da.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant

Mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, yn seiliedig ar ddatblygu ymagweddau difyr at ddysgu ac addysgu, yn unol â gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae pob un o'r staff wedi ymrwymo'n gadarn i sicrhau bod y flaenoriaeth uchaf yn cael ei rhoi i les disgyblion. Mae'r pennaeth wedi gweithio'n dda i ddosbarthu cyfrifoldebau arwain yn yr ysgol, a datblygu medrau arwain uwch staff. Maent yn cymryd cyfrifoldeb am agweddau allweddol ar waith yr ysgol, ac yn chwarae rôl bwysig wrth roi gweithgareddau gwella'r ysgol ar waith, a'u monitro. Trwy gyfarfodydd rheolaidd a deialog anffurfiol barhaus, mae uwch arweinwyr yn gweithio gydag athrawon i gyflawni blaenoriaethau gwella presennol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr yn ymgysylltu'n gyson nac yn ddigon da â lleiafrif o staff cymorth a rhieni. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r staff cymorth yn deall gweledigaeth arweinwyr i symud tuag at ymagwedd wahanol at ddysgu a'i fanteision posibl i ddatblygu medrau ehangach disgyblion. Mae hyn yn amharu ar effeithiolrwydd strategaethau a mentrau gwella.

Mae'r corff llywodraethol yn awyddus i gefnogi gwaith yr ysgol. Mae'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r modd y mae addysgu a dysgu yn newid yng Nghymru, yn sgil rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith. Maent yn cynorthwyo uwch arweinwyr yn gydwybodol yn eu hymdrech i wneud newidiadau i ddarpariaeth

yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol wedi sefydlu strwythur is-bwyllgor effeithiol sy'n goruchwylio gwaith yr ysgol yn dda ac yn bwydo gwybodaeth allweddol i gyfarfodydd y corff llywodraethol llawn. Fodd bynnag, weithiau, mae llywodraethwyr yn dibynnu gormod ar y wybodaeth a gânt gan arweinwyr yr ysgol.

Mae uwch arweinwyr yn ymgymryd ag ystod eang o gamau gweithredu monitro. Mae amserlen systematig o weithgareddau gwerthuso yn cynnwys craffu ar waith disgyblion, arsylwadau gwersi a gwrando ar safbwyntiau disgyblion. Fodd bynnag, er bod trefn fonitro'r ysgol yn eang, nid yw'r gweithgareddau hyn yn nodi'r meysydd pwysicaf i'w gwella yn ddigon da. Er enghraifft, nid yw prosesau hunanwerthuso wedi amlygu'r angen i wella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm, nac wedi nodi nad yw'r addysgu yn herio disgyblion yn ddigon cyson.

Mae'r ysgol yn datblygu hanes llwyddiannus o wella mewn ychydig o feysydd. Er enghraifft, mae athrawon wedi cydweithio i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni safonau da ac yn cynhyrchu ysgrifennu o ansawdd uchel mewn gwersi Saesneg. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â darparwyr allanol ac ysgolion lleol i weithio ar feysydd i'w gwella. Er enghraifft, mae'r ysgol yn arwain prosiect diddorol i ddatblygu gallu athrawon i ymgymryd â dulliau ymchwil, ac elwa arnynt.

Mae uwch arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i athrawon ymgymryd â dysgu proffesiynol i wella eu gwybodaeth a'u medrau. Mae'r ysgol wedi dyfeisio gweithdrefnau rheoli perfformiad effeithiol ar gyfer athrawon, sy'n eu hannog i fyfyrio'n barhaus am effeithiolrwydd eu harfer. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn adolygu a goruchwylio datblygiad proffesiynol staff cymorth yn ddigon da. Nid yw pob un o'r staff cymorth yn glir ynglŷn â'u rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau atebolrwydd.

Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn gweithio'n llwyddiannus i sicrhau bod digon o staff ac offer i gyflwyno'r cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn adolygu a diweddaru caledwedd TGCh yr ysgol yn rheolaidd i wneud yn siŵr ei fod o ansawdd digonol i ddiwallu anghenion disgyblion a staff. Mae'r ysgol wedi creu amgylchedd dysgu deniadol ar gyfer disgyblion. Mae'r gofod awyr agored, gan gynnwys poly-dwnnel yr ysgol a'r ardd, yn hynod fuddiol o ran cefnogi dysgu disgyblion y tu allan i'r ystafell ddosbarth. At ei gilydd, mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn dda.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/07/2019